

Ysgrifennu Traethodau Estynedig

- Digon posib mai dyma'r peth hiraf i chi ei 'sgwennu hyd yma
 - Mae 'na wahaniaeth mawr rhwng 'sgwennu traethawd byr (1,500-3,000 o eiriau) a thraethawd hir (8,000 – 10,000 o eiriau neu fwy)
 - Mae 'na bethau y gallwch chi eu gwneud o flaen llaw a fydd o gymorth i chi:
-
- **Mapio'ch traethawd**
 - **Defnyddio gwahanol dechnegau ysgrifennu**
 - **Meddwl am strwythur y traethawd**
 - **Meddwl am eich ffordd chi o weithio**
 - **Llunio amserlen waith**
 - **Ail-ddrafftio, prawfddarllen a golygu**

TRAETHODAU ESTYNEDIG – TAFLEN 2

MAPIO'R TRAETHAWD

Pam?

- Rhoi cychwyn ar y broses o ysgrifennu
- Mae'n cadarnhau'r hyn rydych chi'n ei wybod yn barod am eich pwnc
- Mae'n dwyn sylw at feysydd lle bydd angen i chi ymchwilio ymhellach
- Yn eich arwain chi i feddwl am eich pwnc mewn ffordd eang a dwfn
- Yn gymorth wrth feddwl am strwythur y traethawd

Sut?

Trwy ysgrifennu nodiadau byr ar y canlynol:

- Ym mha bwnc mae gennych chi ddiddordeb?
- Ydi hwn yn bwnc newydd?
 - Beth sydd gyda chi i'w ddweud amdano a allai fod yn 'newydd'?
- Faint o wybodaeth sydd gyda chi am eich pwnc?
- Oes gyda chi farn feirniadol ar y pwnc y gallwch ei chymharu â gwaith ymchwil arall yn yr un maes?
 - Ydych chi wedi trafod hyn gyda'ch tiwtor?
- Pa ddadleuon (os oes) sydd am eich pwnc chi?
 - Ydych chi am eu trafod nhw neu beidio?
- Os ydych chi'n gweithio o ongl newydd neu ddadleuol, ydych chi wedi ystyried onglau eraill?
- Oes gyda chi ddigon o ffynonellau?
- Ydyn nhw'n rhwydd dod o hyd iddyn nhw?
- Ydy testun eich traethawd yn ddigon penodol?

TRAETHODAU ESTYNEDIG – TAFLEN 3

DEFNYDDIO GWAHANOL DECHNEGAI YSGRIFENNU

Pam?

- Angen amrywiaeth o wahanol dechnegau wrth ysgrifennu traethawd hir
- Yn help i ddod yn ôl i'r arfer o ysgrifennu ar ôl cyfnod segur
- Y rhan fwyaf o'r technegau hyn gennych yn barod – mater o'u harneisio
- Yn ei gwneud hi'n haws i saernïo'r traethawd gorffenedig

Sut?

- Ysgrifennu diffiniadau byr ar dermau allweddol, a'u ffynonellau

Pwrpas?

- Arfer y gallu i olrhain syniadau yn ôl i awdurdodau penodol, gan roi pennod ac adnod
- Rhoi sail gadarn i'ch dealltwriaeth chi o dermau pwysicaf eich traethawd

Sut?

- Crynodebu prif ddadleuon y llyfrau ac erthyglau y byddwch yn sôn amdanynt yn eich traethawd

Pwrpas?

- Deall y dadleuon hyn, a'r berthynas rhyngddynt, yn drwyadl
- Medru defnyddio'r crynodebau hyn yn sail i adrannau o'ch traethawd

TRAETHODAU ESTYNEDIG – TAFLEN 4

MEDDWL AM STRWYTHUR Y TRAETHAWD

- Gwahanol ofynion gan wahanol adrannau. Gwnewch yn siŵr eich bod yn deall beth yw gofynion arbennig eich adran chi; holwch eich tiwtor os nad ydych yn sicr.
- Bydd pob traethawd yn cynnwys elfennau o blith y canlynol:
 - Rhagymadrodd
 - Cyflwyno'ch ymchwil:
 - a) Egluro pam y gwnaethoch chi'r ymchwil
 - b) Egluro sut y gwnaethoch chi'r ymchwil
 - c) Egluro beth a brofwyd gan ganlyniadau'r ymchwil
 - Dadansoddi a gwerthuso dadleuon awduron eraill
 - Gosod eich safbwynt yng nghyd-destun y dadleuon hynny
 - Diwedd glo
- Cyn dechrau 'sgwennu, lluniwch fraslun sy'n dangos prif adrannau eich traethawd, gydag amcan o'r nifer o eiriau ym mhob rhan.
- Ar sail y braslun hwn, ewch ymlaen i fanylu ar bob adran. Cofiwch y dylai bob paragraff gynnwys UN prif bwynt, ac y dylai'r pwyntiau hyn ddilyn ei gilydd yn rhesymegol i greu dadl.
- Bydd llawer o draethodau yn dilyn siâp awr-wydr – h.y. yn dechrau yn gyffredinol iawn (Rhagymadrodd), yn tyfu'n fanylach ac yn fwy penodol wrth fynd ymlaen (sôn am eich ymchwil a'ch casgliadau), ac yn symud allan i'r cyffredinol eto (Diwedd glo).
- Dyma rai cwestiynau a allai fod o help i chi roi siâp ar eich traethawd. Yn y bon, ydych chi...
 - i) yn **hawlio'n groes** i ddatganiad a wnaed yn barod am eich pwnc?
(Os felly, bydd eich traethawd yn ddadansoddol ac yn feirniadol)
 - ii) yn **dangos bwlech** yn y gwaith ymchwil hyd yma?
(Os felly, bydd angen i chi ddangos tystiolaeth, os medrwch, bod yna fwch)
 - iii) yn **codi cwestiwn**?
(Os felly, rhaid gwneud yn siŵr nad yw eich cwestiwn wedi ei ateb eisioes yn y gwaith ymchwil blaenorol)
 - iv) yn **dilyn traddodiad**?
(Unwaith eto, arolwg gofalus o'r gwaith ymchwil i sicrhau ei fod yn cefnogi agweddau ar eich gwaith chi)

TRAETHODAU ESTYNEDIG – TAFLEN 5

DOD I WYBOD MWY AM EICH ARFERION YSGRIFENNU

Pam?

- **Yn sail i lunio amserlen ymarferol ar gyfer y gwaith 'sgwennu**
- **Er mwyn adnabod unrhyw broblemau posib cyn iddynt godi**
- **I ddeall eich cryfderau a'ch gwendidau wrth 'sgwennu**

Sut?

HOLIADUR ARFERION YSGRIFENNU

- Pa fath o bethau rydych chi wedi eu 'sgwennu hyd yma?
- Beth yw'r peth hiraf i chi 'sgwennu hyd yn hyn?
- Ydych chi'n 'sgwennu'r rhwydd neu yn fwy pwylllog?
- Pa ddarnau eraill o waith ymchwil ydych chi wedi eu gwneud?
- Ydy hi'n well gennych chi i 'sgwennu dipyn bach bob dydd, neu osod prynhawn neu fore heibio dair neu bedair gwaith yr wythnos - neu gwneud y cyfan dan bwysau amser, ar ras wyllt?
- Ble sydd orau gyda chi 'sgwennu - yn eich stafell, yn y gegin, yn y llyfrgell, heb neb arall yn y tŷ, does dim ots?
- Beth yw'r amodau sydd orau gyda chi ar gyfer 'sgwennu - ben bore, yn hwyr y nos, gyda ffrind, ar eich pen eich hun, does dim ots?

TRAETHODAU ESTYNEDIG – TAFLEN 6
LLUNIO AMSERLEN YSGRIFENNU

Rhestr Wirio

- **Darllen o amgylch eich maes/dewis pwnc**

- **Mapio eich traethawd**

- **Gwaith ymchwil**
 - dod o hyd i'ch ffynonellau/gwneud yr arbrofion
 - dod i wybod am oblygiadau amser e.e. benthyciadau o lyfrgelloedd eraill, oriau cau llyfrgelloedd dros y gwyliau
 - unrhyw dasgau ysgrifennu penodol, e.e. crynodebau o lyfrau, diffiniadau o dermau

- **Ysgrifennu'r traethawd: drafft cyntaf**
 - wrth wneud yr ymchwil?
 - fesul adran neu bennod?
 - wedi gorffen yr holl waith ymchwil/darllen?

- **Ysgrifennu'r traethawd: ail ddrafft**
 - ydi'r ddadl yn llifo'n iawn? oes manau gwan ynnddi?
 - ydych chi wedi cynnwys pob dim roeddech chi am ei gynnwys?
 - oes rhywbeth y medrech chi ei hepgor?
 - oes angen manylu ar rai elfennau?
 - ydi strwythur sylfaenol y traethawd yn iawn?
 - beth am y nifer o eiriau?

- **Prawddarllen a golygu; trydydd drafft y traethawd**
 - sicrhau bod yr holl gyfeiriadau a'r llyfryddiaeth yn gywir
 - gwirio sillafu/gramadeg os oes angen
 - cael adborth gan gyfaill neu gyd-fyfyriwr

- **Cyfnod 'segur' cyn cyflwyno'r traethawd**
 - i adael i'r trydydd drafft 'setlo'
 - rhag ofn bod unrhyw broblemau e.e. cyfrifiadurol
 - i roi'r diwyg iawn i'r traethawd ar gyfer ei gyflwyno

TRAETHODAU ESTYNEDIG – TAFLEN 7

YSGRIFENNU'R TRAETHAWD

ARDDULL: DEFNYDDIO'R GEIRIAU IAWN

- Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod ac yn defnyddio'r termau technegol cywir yn eich traethawd
- Peidiwch â defnyddio 'jargon'
- Peidiwch â defnyddio ystrydebau
- Peidiwch â 'sgwennu'n rhy flodeuog (llu o ansoddeiriau, adferfau, is-gymalau ayb.)
- (Ar y cyfan) defnyddiwch strwythurau cadarnhaol, nid rhai negyddol
- Amrywiwch eich brawddegau
- Peidiwch â chynnwys manylion amherthnasol
- Anelwch at ysgrifennu mor eglur a diffwdan â phosibl

TRAETHODAU ESTYNEDIG – TAFLEN 8

PRAWFDDARLLEN/GOLYGU EICH TRAETHAWD

- Darllenwch eich traethawd drafft yn uchel (os ydych yn baglu dros y geiriau mae'n arwydd, fel arfer, bod angen newid rhywbeth)
- Tanlinellwch broblemau neu bethau dydych chi ddim yn siŵr ohonyn nhw, er mwyn cofio eu newid
- Holwch yn gyson: oes angen i'r darllenydd wybod hyn?
- Gofynnwch i ffrind ei ddarllen. Oes yna bethau nad yw ef/hi yn eu deall?
- Gadewch lonydd iddo am ddiwrnod neu ddau o leiaf cyn ail-ddrafftio

RHESTR WIRIO

- Ydych chi wedi cydnabod eich holl ffynonellau?
- Ydy eich llyfryddiaeth chi'n gyflawn ac yn y drefn gywir?
- Ydy'r traethawd wedi ei gyflwyno'n dda o ran diwyg?
- Ac o ran cywirdeb?
- Ydych chi wedi bodloni gofynion cyflwyno penodol eich adran?
- Ydych chi wedi cyflwyno unrhyw ddelweddau yn y manau iawn ac wedi eu labeli'n eglur?

TRAETHODAU ESTYNEDIG – TAFLEN 9

ADNODDAU PELLACH

CYFFREDINOL

Stott, R., Snaith, A., and Rylance, R. (eds). (2001) *Making your Case: a Practical Guide to Essay Writing*. Harlow, Longman.

Allison, B. (1997) *Student Guide for Preparing Dissertations*. London, Kogan Page

Howard & Sharp (1996) *The Management of a Student Research Project (second edition)*. Aldershot, Gower.

CYMRAEG

Jones, Morgan D. (1993) *Cywiriadur Cymraeg*. Llandysul, Gomer

Lewis, D. Geraint (1996) *Y Treigliadur*. Llandysul, Gomer

Lewis, D. Geraint (2000) *Y Llyfr Berfau*. Llandysul, Gomer

Griffiths, Bruce a Jones, Dafydd Glyn (1995) *Geiriadur yr Academi*. Caerdydd, Gwasg Prifysgol Cymru

CRYBWYLL FFYNONELLAU AC OSGOI LLÊN-LADRAD

System MLA: www.mla.org

System APA: www.apastyle.org

Mae dau diwtorial da ar sut i ddefnyddio'r gwahanol systemau hyn, ynghyd â sawl agwedd arall ar ysgrifennu traethodau, ar:

<http://owl.english.purdue.edu/handouts/index2.html#research>

(Dylid dwyn mewn cof mai gwefan Americanaidd yw hon. Os oes gennych unrhyw amheuan ynglŷn â chonfensiynau dogfennu neu gonfensiynau eraill yng nghyswllt ysgrifennu traethodau, cofiwch gyfeirio at ganllawiau eich adran.)

YMDRIN Â DOGFEN HIR AR Y CYFRIFIADUR

How To: Long Documents in Word Pt1/Pt2:

www.inf.aber.ac.uk/advisory/how-to/wd-long-doc1.asp

www.inf.aber.ac.uk/advisory/how-to/wd-long-doc2.asp